

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

GORCHYMYN (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 3) 2022

1. Ar 10 Mai 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio i Bobl Anabl a nodir yn yr atodlenni isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 23 Mai 2022 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyrach, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 3) 2022"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 23 Mai 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Man Parcio Arfaethedig i Bobl Anabl

Barry Road, Y Barri (Ivanhoe) (AT52)

Ar ochr y gogledd o ffin yr eiddo a elwir Ivanhoe ac Elmore i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 6.6 metr.

Jewel Street, Y Barri (30) (AV53)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 30 a 32, tua'r gogledd-ddwyrain am 5.1 metr.

Kingsland Crescent, y Barri (AW52)

Ar yr ochr ddwyreiniol o bwynt 18.6 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Dock View Road i gyfeiriad y gogledd am 6.6 metr.

Salisbury Road, y Barri (43) (AX48)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 41 a 43, tua'r gogledd-ddwyrain am 5 metr.

Victoria Road, Penarth (AM64)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 5 a 6 Denbigh Court, tua'r gogledd-ddwyrain am 6.6 metr.

West Court, Penarth (6) (AK64)

Ar ochr y de-ddwyrain o'r ffin rhwng rhifau eiddo 5 a 6 i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 5 metr.

Dochdwy Road, Llandochau (26) (AH62)

Ar yr ochr ogleddol, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 26 a 28, tua'r gorllewin am 6.6 metr.

ATODLEN 2

Penderfyniad arfaethedig i ddiddymu'r man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr a chreu Man Parcio i Bobl Anabl yn lle hynny Stryd Fawr, Y Barri (61) (AX50)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 60 a 61, tua'r gogledd-ddwyrain am 5.1 metr.

Lombard Street, y Barri (6) (AV51)

Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 5 a 6, tua'r gogledd-orllewin am 5.1 metr.

Arcot Street, Penarth (12) (AJ64)

Ar ochr y dwyrain o bwynt 5 metr i'r de o'r gyffordd â Plassey Street, tua'r de am 5 metr.

ATODLEN 3

Penderfyniad arfaethedig i ddiddymu'r Man Parcio i Bobl Anabl presennol

Castleland Street, y Barri (74) (AW53)

Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 72 a 74, tua'r de-ddwyrain am 5 metr.

Heol yr Orsaf, y Barri (64) (AW52)

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r ffin rhwng rhifau eiddo 62 a 64 tua'r gogledd-orllewin am 5.3 metr.

Queens Road, Penarth (95/96) (AI64)

Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 10 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Paget Road, tua'r gogledd-ddwyrain am 6.6 metr.

ATODLEN 4

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Man Parcio i Bobl Anabl presennol gan greu

Parcio i Breswylwyr yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 8am-6:30pm

Maes Y Cwm Street, y Barri (59) (AU52)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin gyffredin rhwng rhifau eiddo 59 a 61, tua'r de-orllewin am 5.3 metr.

ATODLEN 5

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Man Parcio i Bobl Anabl presennol gan greu

man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am-6:30pm, 2 awr dim

dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio deiliaid trwydded

George Street, Y Barri (23) (AV53)

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r ffin gyffredin rhwng rhifau eiddo 21 a 23 tua'r de-ddwyrain am 5.5 metr.

Lower Morel Street, Y Barri (28) (AV53)

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Heol Holltwn tua'r de-ddwyrain am 6.6 metr.

Woodlands Road, y Barri (110) (AU52)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 108 a 110, tua'r de-orllewin am 5 metr.

Wyndham Street, Y Barri (30) (AU52)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 30 a 32, tua'r gogledd-ddwyrain am 4.7 metr.

Dyddiad: 19 Mai 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA